


## Eglwys y Santes Fair, Beddgelert St Mary's Church, Beddgelert

Mae Cristnogion wedi addoli yn y fan heddychlon hon ers y 7fed ganrif. Yn y 1230au, cafodd y gymuned fynachaidd hynafol ei had-drefnu i ffurfio Priordy Awstinaidd. Cafodd eglwys fawr ei hadeiladu i adlewyrchu'r statws newydd hwn, mwy na thebyg dan nawdd Llywelyn Fawr. Byddai adeiladau eraill, sydd wedi'u hen ddinistrio, wedi sefyll yn y cae glas i gyfeiriad y de o'r eglwys. Mae Eglwys y Santes Fair wedi'i llosgi ddwywaith: unwaith gan fyddin Edward I ym 1283, ac unwaith eto yn y 15fed ganrif, ond mae olion adeilad y 13eg ganrif wedi aros. Chwiliwch am y tair ffenestr bigfain dal uwchlaw'r allor a'r bwâu llydan ar ochr ogleddol yr eglwys.

Wrth ymyl Beddgelert, i gyfeiriad y de o'r bont

Christians have worshipped on this peaceful spot since the 7th Century. In the 1230s the ancient monastic community here was reorganised to form an Augustinian Priory. A large church was built to reflect this new status, probably under the patronage of Llywelyn the Great. Other buildings, long since destroyed, would have stood in the grassy field south of the church. St Mary's has twice been burned: once by Edward I's army in 1283, and again in the 15th century, but traces of the 13th Century building remain. Look for the three tall lancet windows above the altar, and the wide arches on the north side of the church.

At the edge of Beddgelert, south of the bridge



- 1 Maes parcio / Car park**
- 2 Lleoliad Ystlys y Gogledd / Location of the North Aisle**
- 3 Mae rhannau o waliau gogleddol a gorllewinol y corff o'r 12fed ganrif /**  
Parts of the north and west walls of the nave are from the 12<sup>th</sup> century
- 4 Bwâu o'r 13eg ganrif / 13<sup>th</sup> century arches**
- 5 Cangel yn cadw ffenestri pigfain o'r 13eg ganrif uwchlaw'r allor /**  
Chancel retaining 13<sup>th</sup> century lancet windows above the altar
- 6 Lleoliad y Cabidyldy / Location of the Chapter House**
- 7 Lleoliad y Clwysty / Location of the Cloister**
- 8 Llwybrau Aberglaslyn / Aberglaslyn trails**